

## Troseddau Casineb Anabledd - Cynllun Gweithredu'r CPS

Mae'r cynllun hwn yn gosod y gweithrediadau penodol y bydd y CPS yn eu cynnal i wella'r gwaith o erlyn troseddau casineb anabledd a phrofiadau dioddefwyr anabl a thystion.

Mae troseddau sy'n seiliedig ar gasineb yn rhagfarnau bygythiol a disynnwyr sy'n cael effaith ddiraddiol a niweidiol ar fywydau pobl eraill. Yn aml maent yn dreisgar neu'n cynnwys camdriniaeth lafar, ond mae'n bwysig sylweddoli y gall troseddau casineb, yn enwedig troseddau casineb anabledd, ddigwydd mewn amryw o ffyrdd, gyda rhai achosion yn anodd i'w hadnabod, megis egsbloitiaeth neu drosedd a gyflawnir gan rywun sy'n smalio bod yn ffrind i'r dioddefwr.

Cynhyrchodd y CPS Strategaeth Troseddau Casineb gyffredniol ym mis Mai 2014 a Chynllun Cyflenwi ar Droseddau Casineb ym mis Hydref 2014. Rydym yn cydweithio â'n partneriaid cyfiawnder troseddol (CJS) hefyd i ddatblygu strategaeth draws-CJS er mwyn rhannu a chytuno ar yr arfer orau.

Fodd bynnag, mae nodweddion unigryw yn perthyn i droseddau casineb anabledd, a chydabyddwn yr angen am gynllun gweithredu ychwanegol i ddelio â'r math hwn o droseddu.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y maes hwn, a dengys adroddiad blynyddol y CPS ar Droseddau Casineb yn 2013-14 y bu i ni gyhuddo mwy o achosion o droseddau casineb anabledd a chynyddodd y gyfradd gollfarnu.

Serch hynny, mae llawer yn rhagor y gallwn ei wneud i wella'r modd yr ydym yn adnabod a chofnodi elfennau o droseddau casineb anabledd er mwyn sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu herlyn a'u dedfrydu'n briodol a bod cyfiawnder yn cael ei ddarparu ar gyfer y dioddefwyr a weithiwn â nhw.

I gyflawni hyn, byddwn yn:

- 1) Cyflwyno trefn sicrwydd troseddau casineb, yn seiliedig ar yr arfer orau bresennol o wiriadau yn y fan a'r lle, monitro cywirdeb data, a chydweithio'n agos â'r heddlu, ar draws pob ardal CPS, erbyn mis Rhagfyr 2014.
- 2) Adfer safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer Cydlynwyr Ardal Troseddau Casineb, erbyn mis Rhagfyr 2014.
- 3) Cynnal dadansoddiad manwl, yn cynnwys gwaith samplo achos a grwpiau ffocws, i fonitro profiadau dioddefwyr troseddau casineb anabledd erbyn mis Tachwedd 2014. Byddwn yn cynnal gwaith dadansoddi dilynol i asesu perfformiad erbyn mis Mawrth 2015.
- 4) Ceisio rhoi'r gwelliannau canlynol ar waith i'r systemau CPS presennol er mwyn gwella'r modd o adnabod achosion o'r fath erbyn mis Ebrill 2015 ynghyd â'u cofnodi a'u monitro'n gywir:

- Gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod anableddau dioddefwyr yn cael eu cofnodi fel rhan o'r wybodaeth a anfonir i'r CPS yn awr ac unwaith y bydd y ffeil ddigidol yn weithredol.
  - Cyflwyno newidiadau fel rhan o ddatblygiad parhaus y system rheoli achosion CPS er mwyn gwella gwaith monitro drwy gydol cyfnod unrhyw achos, yn cynnwys ceisiadau i ymgodi dedfryd.
  - Sicrhau y cofnodir canlyniadau ceisiadau am ymgodiad dedfryd ar daflen gofnodi gwrandawriad digidol newydd.
- 5) Datblygu adnoddau i erlynwyr sicrhau eu bod yn ystyried yr holl ffactorau a'r ystyriaethau perthnasol sy'n angenrheidiol yn ymwneud â dioddefwyr anabl. Bydd y rhain yn cynnwys arweiniad; model MG3 a rhestr wirio i'w chyhoeddi ar ganolbwynt gwaith achos CPS ym mis Hydref 2014 ac ymgorffori i'r ymarferion presennol gan ardaloedd, yn enwedig CPSD, erbyn mis Rhagfyr 2014; a gweminar i erlynwyr i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r mathau hyn o achosion ym mis Medi 2014.
  - 6) Ail gyhoeddi arweiniad clir i erlynwyr ac asiantwyr i sicrhau bod ceisiadau i ymgodi dedfryd yn cael eu gwneud pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.
  - 7) Cynnal panel craffu troseddau casineb anabledd i archwilio a datblygu teipolegau ynghylch y math hwn o droseddu, erbyn mis Rhagfyr 2014.
  - 8) Adolygu hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer erlynwyr i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r ystod lawn o droseddu er mwyn i erlynwyr ddeall y gwahanol fathau o droseddau casineb anabledd yn llwyr yn ogystal â'r egsbloitiaeth a'r troseddau a gyflawnir gan y rhai sy'n smalio bod yn ffrind i'r dioddefwr.
  - 9) Dangos uwch arweinyddiaeth ar gyfer gwella perfformaid mewn troseddau casineb anabledd, drwy gyflwyno sesiwn ar droseddau casineb anabledd yng Nghynhadledd Uwch Reolwyr y CPS a gwahodd siaradwr sydd ag anabledd er mwyn codi gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
  - 10) Cysylltu â'r farnwriaeth er mwyn cofnodi a monitro'r ceisiadau i ymgodi dedfrydau a gymeradwywyd, erbyn mis Rhagfyr 2014.

I roi cymorth i ni roi'r cynllun gweithredu hwn ar waith byddwn yn sefydlu is-grŵp troseddau casineb o Fforwm Atebolrwydd Cymunedol y CPS i sicrhau craffu ac arweiniad hirdymor.